| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **6 MAWRTH, 2014** |
| **PWNC** | **PROTOCOL AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL GAN GYNGHORWYR** |
| **PWRPAS** | **CYMERADWYO PROTOCOL** |
| **AWDUR** | **Y CYNGHORYDD LESLEY DAY, CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD,<br>GERAINT GEORGE, PENNAETH STRATEGOL A GWELLA** |

1. Cytunodd y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ar yr angen i gael protocol ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan gynghorwyr, Sefydlwyd Grwp Tasg ar y cyd gyda thri aelod o'r ddau bwyllgor i drafftio protocol o'r fath.

2. Cyfarfu'r Grwp Tasg ar ddau achlysur a chafodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd drafodaeth gychwynol ar ei gynnwys a chynnig rhai awgrymiadau sydd wedi cael sylw gan y Grwp Tasg.

3. Cyflwynwyd drafft o'r protocol ar sail y gwaith hynny i'r Pwyllgor Safonau ar 27 Ionawr a wedyn dosbarthwyd y protocol drafft i bob aelod o'r Cyngor trwy Rhaeadr er mwyn rhoi cyfle i dderbyn unrhyw sylwadau arno.

4. Cyflwynir y protocol a'r atodiadau sydd yma i'r Cyngor llawn gan wahodd y Cyngor i'w fabwysiadu. O fabwysiadau'r protocol, y bwriad fydd cynnal sesiynau hyfforddi byr ar y protocol yn y Fforymau Ardal gan ystyried yr angen am hyfforddiant pellach ar ôl hynny.